# EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

a gynhelir yn

## Y NEUADD

Prynhawn a Nos Sadwrn, Ebrill 13eg 2024

**Cyfarfod Prynhawn Sadwrn**
Tâl Mynediad: £3.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 12.30 o'r gloch

**Cyfarfod Nos Sadwrn**
Tâl Mynediad: £4.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 6.30 o'r gloch

**DECHREUIR Y DDAU GYFARFOD YN BRYDLON**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

*Llywydd y Dydd:*
Rhiain Awel Dyer, De Croydon

*Arweinyddion*
Mr. Gwilym Jones
Mrs. Netta Pritchard

*Beirniaid*

**Cerdd a Cherdd Dant:** Trystan Lewis, Llanfairtalhaiarn

**Llefaru a Rhyddiaith:** Andrea Parry, Y Bala

**Barddoniaeth:** Yr Athro Peredur Lynch, Bangor

**Arlunio a Gwaith Llaw:** Elin Huws, Llanbedrog

*Cyfeilydd*
Olwen Jones, Bangor

*Swyddogion y Pwyllgor*

**Cadeirydd:** Mrs. Mair Owen, Nant

**Is-Gadeirydd:** Mrs. Fflur Rees Jones, 'China'

**Trysorydd:** Mrs. Sian Thomas, Gwynfa

**Is-Drysorydd:** Glenys Williams, 4 Cae Arfryn

**Ysgrifennydd:** Mr. Dilwyn Thomas, Meifod, Mynytho,
Pwllheli, Gwynedd LL53 7RH
Ffôn: (01758) 740 704    Symudol: 07979 733 123

# RHESTR TESTUNAU

## LLENYDDIAETH

1. Blwyddyn Derbyn ac 1: Llun a Brawddeg. Gwobr: Medal a £7 i'w rhannu.
2. Blwyddyn 2: Llun a Paragraff: Parti Penblwydd. Gwobr: Medal a £8 i'w rhannu.
3. Blwyddyn 3 a 4: Stori: Diwrnod ar Lan-y-Môr. Gwobr: Medal a £9 i'w rhannu.
4. Blwyddyn 5 a 6: Stori neu Barddoniaeth: Mynd am Dro. Gwobr: Medal a £12 i'w rhannu.
5. Dan 16 oed: Darn o farddoniaeth: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
6. Dan 16 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
7. Dan 19 oed: Rhyddiaith - 'Teulu'. Gwobr: Tlws (rhoddedig gan Mrs. Ann Jones er cof am ei phriod, Thomas W. Jones) a £12.
8. Dan 25 oed: Barddoniaeth neu Ryddiaith - 'Gwrthryfela'. Gwobr: Tlws y Prifardd (rhoddedig gan deulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones).
9. Cyfansoddi Darn Llefaru i blant dan 6 oed. Gwobr: £20. (rhoddedig er cof am y diweddar Heulwen M. Thomas, Meifod). (Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch buddugol).
10. Emyn i ddathlu priodas. Gwobr: £10 (rhoddedig).
11. Cywydd heb fod dros ugain llinell, 'Plentyndod'. Gwobr: £10 (rhoddedig).
12. Soned, 'Goleuni'. Gwobr: £10 (rhoddedig).
13. Telyneg, 'Rhyddid'. Gwobr: £10 (rhoddedig)
14. Englyn, 'Foel Tŵr, Mynytho'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr. Sam Jones).
15. Englyn Ysgafn, 'Siopa'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Mr. Sam Jones).
16. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell, 'Y Gorwel'. Gwobr: Cadair yr Eisteddfod (model) a £30.
17. Rhyddiaeth: Ysgrif - 'Cofio'. Gwobr: Tlws (rhoddedig) i'w gadw am flwyddyn a £15.

Cynhelir Seremoni Tlws y Prifardd a Seremoni'r Cadeirio yng nghyfarfod nos Sadwrn. Cenir Cân y Cadeirio gan Mrs Carol Pugh, Botwnnog a chenir y Corn Gwlad gan Carwyn Evans, Llanbedrog. Y Gadair o waith Miriam Jones, Penmorfa, Llanengan.

Beirniadaethau 1-6 prynhawn Sadwrn
Beirniadaethau 7-17 nos Sadwrn

---

*Rhestr Testunau ar gael yn gyflawn ar www.steddfota.cymru*

18. I bob oed: Cyfansoddi cân ar eiriau'r Darn Llefaru buddugol yn Eisteddfod 2023. Gwobr: £12. (Beirniadaeth nos Sadwrn).

**Ffrind**

Mae gen i ffrind bach selog
  Sy'n chwarae yn tŷ ni,
Mae'n medru dringo'n gyflym,
  Yn gynt na 'mrawd a fi.

Mae'n neidio ar y soffa
  A chanu dros y lle,
Mae'n rhuthro am y gegin
  Pan mae hi'n amser te.

Mae'n dwyn 'fish fingers' weithia',
  A llyfu'r blât yn lân,
A phan mae wedi blino
  Mae'n cysgu wrth y tân.

Mae'n 'molchi'n lân bob diwrnod
  Ond dio'm yn hoffi bath,
Na chawod, na phwll nofio,
  Pwy ydio? - 'Clustia' nghath!

*Owenna Hughes, Pencaenewydd*

# ARLUNIO

1. Meithrin a Derbyn: Lliw. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Patrwm. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Y Gwyllt. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Fi. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Cynefin. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Thema - Hunaniaeth. Gwobr: Cwpan (rhoddedig) er cof am Gwynfor Ellis a £12.

# GWAITH LLAW

**(unrhyw gyfrwng)**

1. Meithrin a Derbyn: Y môr. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Fy hoff anifail. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Siapiau. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Ail-gylchu. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Amgylchfyd. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Egni. Gwobr: £12.

# CYFARFOD PRYNHAWN SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r cystadlaethau Canu a Llefaru dan 6 oed.

## CERDDORIAETH

1. Unawd dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
2. Unawd dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
3. Unawd Bl. 2 ac iau: 'Breuddwydio', Gilmor Griffiths, allan o 'Hwyl ar y Gân' (Y Lolfa). Cenir pennill 1 a 2 yn unig. Gwobr: 1, Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.
4. Unawd Bl. 3 a 4: 'Helfa'r Hydref', Leah Owen, allan o 'Codi'r To'. (Cyhoeddiadau Curiad). Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
5. Unawd Bl. 5 a 6: 'Dy Enw Di', Ruth Lloyd Owen, allan o 'Cyhoeddiadau Sain'. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
6. Unawd Piano Bl. 6 ac iau: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 3 munud. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
7. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau: 'Robin Ddiog', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
8. Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
9. Deuawd Bl. 6 ac iau: 'Ffrindiau Sy'n Werth y Byd', Leah Owen, allan o 'Codi'r To' (Cyhoeddiadau Curiad). Gwobr: £16 i'w rhannu.
10. Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 'Machlud'. Anni Llŷn, allan o 'Dim ond Traed Brain' (Gwasg Gomer / Y Lolfa). Angen hepgor y trydydd a'r pumed pennill. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cainc: 'Ceiro', Heledd Ann Hall (112) allan o 'Ceinciau'r Allwedd' (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru). Gwobr: £16 i'w rhannu.
11. Parti Bl. 6 ac iau (Adrannau). Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Pam?', Leah Owen allan o 'Codi'r To' (Cyhoeddiadau Curiad). Caniateir dewis nodau yn y barrau olaf; neu i Ysgolion Cynradd hyd at 50 o blant. Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Now a Ned', Leah Owen, allan o 'Ffrindiau' (Cyhoeddiadau Curiad). Trefn y gerddoriaeth: Rhag /Cyt 1 / Pen 1 / Cyt 2 / Pen 2 / Cyt 3. Gwobr: £20.
12. Unawd Merched/Bechgyn Bl. 7, 8 a 9: 'Y Baban Mair' ('Madonna and Child'), Eric H. Thiman (Warner Chapell Music). Geiriau Cymraeg: Aled Lloyd Davies, ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cywair: F fwyaf (E/F') 30703; cywair: D fwyaf (C/D) 30685, <u>neu</u> 'Af i Draw Gyda Nhad i Aredig' ('I Will Go with My Father a-Ploughing'), John Jeffreys (Roberton Publications, 75317 a 1071). Geiriau Cymraeg: Beryl Steeden Jones, ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cywair: F fwyaf (C/E$^b$) 75317; Cywair: G fwyaf (D/F') 01071; Cywair E$^b$ fwyaf (B/D$^b$). Copi E$^b$ ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) ac £12; 2, £10; 3, £8.

13. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Fy Mabinogi i' Mererid Hopwood, allan o 'Lluniau yn fy Mhen' (Gwasg Gomer/Atebol). Angen cyplysu pennill 1 a 2, 3 a 4 a 5 a 6. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Cainc: Trefynach, Owain Sion (112), allan o 'Ceinciau Llwyndyrus' (Cyhoeddiadau Sain). Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Guto ac Enid Jones, Egryn, Parciau, Mynytho) a £12; 2, £10; 3, £8.
14. Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud. Gwobr: 1, Cwpan a £12; 2, £10; 3, £8.
15. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Rew di Ranno', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.
16. Deuawd Bl. 7, 8 a 9: 'Clychau', Caryl Parry Jones (tr. Geraint Cynan). Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr: £20.
17. Deuawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Y Rhuban Glas', Hywel Griffiths, allan o 'Lluniau yn fy Mhen' (Gwasg Gomer/Atebol). Cainc: 'Maen y Werin', Owain Sion (1122) allan o 'Ceinciau Penyberth' (Urdd Gobaith Cymru). Gwobr: £20.

# LLEFARU

1. Dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
2. Dan 6 oed. (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): 'Ffrind', Owenna Hughes (gweler tud 3) neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
3. Unigol Bl. 2 ac iau: 'Esgidiau Newydd', Anni Llŷn, allan o 'Dim Ond Traed Brain' (Gwasg Gomer / Lolfa). Gwobr: 1, Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.
4. Unigol Bl. 3 a 4: 'P'un ddaeth gynta'?' T. Llew Jones, allan o 'Lluniau yn fy Mhen' (Gwasg Gomer/Atebol). Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
5. Unigol Bl. 5 a 6: 'Y Ras', Mari George, allan o 'Lluniau yn fy Mhen'. (Gwasg Gomer / Atebol). Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
6. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (6-12 mewn nifer): 'Ystlum', Myrddin ap Dafydd, allan o 'Mae 'Na Arth wedi Dwyn fy Mhyjamas'. (Gwasg Carreg Gwalch), <u>neu</u> i Adrannau (6-12 mewn nifer): 'Taith Iaith o Dŷ Nain i Dŷ Mamgu', John Gwilym Jones. Allan o brint. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Gwobr: £20.
7. Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Y Filltir Sgwâr', Elinor Wyn Reynolds, allan o Pigion Beirdd y Mis (Radio Cymru). Cyhoeddiadau Barddas. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.
8. I bod oed: Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent?' (Gweler y manylion yn rhestr cystadlaethau cyfarfod nos Sadwrn). Gwobr: £50 (gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru).
9. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cystadleuaeth Perfformio 2023-24: Mewn cymeriad. Cyfle unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol mewn cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o 2 script: Owain Glyndŵr neu Cranogwen. Oed: 16-25. Bydd cystadlu mewn eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a Mai 2024 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Sgriptiau ar gael o wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru www.steddfota.cymru. Gwobr: 1, £20; 2, £15; 3, £10.

# CYFARFOD NOS SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r gystadleuaeth Unawd Bl. 10 a dan 19 oed.

Y cystadleuwyr yng ngystadleuaeth rhif 8 i drafod eu dewisiadau gyda'r Cyfeilydd ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod.
Ffôn: (01248) 353534 neu 07771 791 078 - olwenpiano1@gmail.com

## CERDDORIAETH

1. Unawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £8.
2. Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr 1, Tlws (rhoddedig er cof am y diweddar John R. Thomas, Meifod) a £14.
3. Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 7 munud. Gwobr 1, Cwpan Coffa Eiluned Douglas-Williams (i'w gadw am flwyddyn) a £14; 2, £12; 3, £8.
4. Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn heblaw'r piano: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan ac £14; 2, £12; 3, £8.
5. Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
6. Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24
7. Unawd dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w gadw am flwyddyn (rhoddedig er cof am Humphrey Jones, Hafod-y-Grug) a £16; 2, £14; 3, £12.
8. Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud. (Gall pob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun, e.e. CD neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir o gwbl). Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am John Elwyn Parry, Coed-y-Fron) a £16; 2, £12; 3, £10.
9. Unawd Agored: Canu Unrhyw Emyn. Gwobr: 1, Cwpan (i'w gadw am flwyddyn) er cof am y ddiweddar Katie Williams, Maesteg, Llanbedrog ac £20; 2, £15; 3, £10 (rhoddedig).
10. Cân Werin Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y diweddar Einion P. Jones, a fu'n Drysorydd yr Eisteddfod) ac £16; 2, £12; 3, £10.
11. Unawd Cerdd Dant Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w ddal am flwyddyn (er cof am Carys Jones, Awel-y-Mynydd) a £16; 2, £12; 3, £10.
12. Unawd Gymraeg Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan, i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig er cof am Katie Wyn Jones gan y teulu), ac £20; 2, £16; 3, £12.
13. Her Unawd: Unrhyw unawd o gyfanwaith (Opera/Oratorio). Gweler Amod 5. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu 18, Bryn Adda, Bangor, er cof am Catherine Rhianwen Jones) ac £20; 2, £16; 3, £12.
14. Deuawd Agored: Unrhyw. Gwobr: £26.
15. Parti Unsain neu Ddeulais: Unrhyw. Gwobr: £35.

16. Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru 2023-2024. Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunan-ddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gab gyfansoddwr o Gymro. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1af Mai 2023 a 1af Mai 2024 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Gwobr: 1, Cwpan a £70; 2, £50. (Y cwpan i'w ennill dair gwaith yn olynol neu bedair gwaith i gyd).

## LLEFARU

1. Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £8.
2. Unigol dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £16; 2, £14; 3, £12.
3. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu Bwthyn Ebeneser, Abererch, er cof am Stanley Rees Thomas) ac £20 (rhoddedig); 2, £16; 3, £14.
4. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cystadleuaeth Perfformio 2023-24: Mewn cymeriad - hyd at 5 munud. (Gweler cystadleuaeth rhif 9 yng nghyfarfod y prynhawn). Gwobr: 1, £20; 2, £15; 3, £10.
5. Grŵp Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Tarian i'w chadw am flwyddyn (rhoddedig) a £70; 2, £50.

---

I bob oed: Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent?
Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa.
(Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio offer). Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall, e.e. Cân o Sioe Gerdd. Gwobr: £50 gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru (i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid).

# AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
2. Rhaid i bawb a fydd yn cystadlu ar destunau yr Urdd fod yn yr oedran priodol ar y dydd olaf o Awst, 2024, a'r holl gystadleuwyr eraill i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod. Ni chaniateir cystadlu ond mewn dosbarth sy'n cyfateb i oedran y cystadleuydd.
3. Ceidw y Pwyllgor hawl i fynnu prawf o ddilysrwydd unrhyw gystadleuydd.
4. **Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ar yr eitemau agored.**
5. Ni chaniateir cystadlu ond yn Gymraeg.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr anfon eu henwau i'r Ysgrifennydd erbyn Ebrill 11, 2024.
7. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond un ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.
8. Y Cyfansoddiadau a'r Gwaith Llaw i fod yn llaw'r Ysgrifennydd (ac nid i'w hanfon i'r Beirniaid) erbyn Mawrth 23, 2024. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith gan amgau enw a chyfeiriad ar wahân.
9. Gellir cael copi o'r beirniadaethau ychydig ddyddiau ar ôl yr Eisteddfod, ond ni ddychwelir y cynhyrchion llenyddol cyn Ebrill 30, 2024, yna fe'u dychwelir ond gwneud cais amdanynt gan anfon amlen addas stampiedig.
10. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.
11. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.

## Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd.

*Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at dreuliau yr Eisteddfod. Diolch i deulu Gwelfryn am eu rhodd o Gadair yr Eisteddfod; Mrs. Ann Jones a theulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones.*

Argraffwyd gan Wasg Cymru, Penrhyndeudraeth (Ffôn: 01766 770001)